**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSTAFELL GYFARFOD, GWESTY ERYROD,LLANRWST NOS LUN, GORFFENNAF 25AIN, 2022**

**PRESENNOL**

Cyng. John Owen (Cadeirydd), Cyng. Arwel Ll Jones, Cyng Nerys Dobson, Cyng. Anwen Jones ,
Cyng. Alun Morris, Cyng. Eifion Williams, Delyth Algieri (clerc).
Cyng Nia Clwyd(Cynghorydd Sir)

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Dylan Jones, Cyng. Hefin Martin, Cyng Arron Wynne(Cynghorydd Sir)

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod.

**CADARNHAU'R COFNODION**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 27ain Mehefin, 2022.

**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

**YSGOL GYNRADD LLANDDOGED**

Cafwyd adroddiad gan Cyng. Anwen Jones ar y mater o gyflwr hwyneb y waliau yr ysgol a'r ffwng sydd yn tyfu ar y wal. Eglurodd hefyd fod Llywodraethwyr yr ysgol wedi trafod y pryder yma a cadarhaodd fod y mater wedi cael ei gyfeirio at y Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**FFORDD FFRITH UCHAF I FFRITH ISAF, MAENAN**

Nododd Cyng John Owen ei fod wedi cael cyfarfod gyda Mr Emyr Owen o'r Adran Priffyrdd i drafod cael tarmacio y ffordd rhwng Ffrith Uchaf a Ffrith Isaf Maenan. Mr Owen yn awgrymu bod y cyngor cymuned yn cyfeirio y ffordd yma i'r rhestr at y flwyddyn ariannol nesaf.

**FFORDD FRON FFRANCIS, LLANDDOGED**

Awgrymwyd cyfeirio y ffordd yma at yr Adran Priffirydd i gael ei tharmacio hefyd at y flwyddyn ariannol nesaf.

**CYNLLUNIO**

**Cyfeirnod:** 0/49856 **Ymgeisydd:** Mr Angus Hanton Creu ail fynedfa i'r coed a thrac yn arwain at gylch troi newydd ac ardal stacio coed (Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw - Coedwigaeth) Coed Tan Yr Allt Maenan Llanrwst Conwy.

Trafodwyd y cais cynllunio uchod a phasiwyd drwy aelodau godi eu dwylo fod dim gwrthwynebiad i'r cais.

**CYNNAL A CHADW**

1. Nifer o arwyddion o gwmpas pentref Llanddoged angen cael eu adnewyddu.
2. Arwydd y fynedfa i'r pentref LLANDDOGED ar ffordd Tyrpeg Uchaf angen eu adnewyddu.
3. Angen edrych ar y biniau halen o gwmpas Llanddoged a Maenan ambell i rai wedi torri(e.e. Wrth Gapel Salem, wrth Trwyn Swch, Llanddoged, wrth Ffordd Bryn Saith.
4. Siglenni yng nghae chwarae Cae Cetyn yn fregus iawn ac angen cael ei harchwilio.
5. Cytunwyd a phasiwyd i'r clerc ofyn i Mr Elwyn Williams strimio y maes parcio Gegin Wen Llanddoged a maes parcio Cadair Ifan Goch eto eleni.

**MAP LLWYBRAU CYHOEDDUS ARDAL LLANDDOGED A MAENAN**

Y clerc wedi rhoi cais i mewn i Gyngor sir Conwy am gopi o fapiau diweddara o llwybrau cyhoeddus ardal Llanddoged a Maenan ynghyd a chopi o ffiniau'r ward Llanddoged a Maenan.

**Y GYLLIDEB**

Cafwyd adolygiad o'r gyllideb yn erbyn yr incwm a'r gwariant gwirioneddol. Arwyddwyd y Cadeirydd y gyfriflen banc yn ôl yr arfer a chadarnhawyd fod dim cymhlethdod yn codi o'r gyllideb.

**UNRHYW FATER ARALL**

**LLINELLAU MELYN, FFORDD TYRPEG UCHAF, LLANDDOGED**

Nodwyd fod pryder wedi codi am gerbydau yn parcio ar y man cul y ffordd ar y llinellau melyn ar Ffordd Tyrpeg Uchaf yn ystod gweithgaredd a chafodd ei gynnal yn yr ysgol yn ddiweddar, roedd hyn wedi achosi tagfeydd ar y ffordd.

Cynnigodd Cyng Nia Clwyd cael gair gyda pherchennog y car sydd yn parcio yn waelod y ffordd ar y llinellau melyn a bydd Cyng. Anwen Jones yn codi y mater y parcio yn y cyfarfod Llwyodraethwyr  Ysgol Llanddoged.